

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig sef Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21

Argymhelliad 1.

Yn y dyfodol, ynghyd â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru, dylid cynnwys asesiad cynhwysfawr o'i heffaith gyffredinol ar lefelau carbon. Er mwyn llywio'r asesiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru gynnal dadansoddiad o effaith y penderfyniadau yn ei chyllideb ar lefelau carbon.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Ochr yn ochr â'r Gyllideb ddrafft, roedd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd wedi cyhoeddi Cynllun Gwella'r Gyllideb, sy'n nodi camau pellach i weld sut y gellir gwreiddio asesiad o effaith carbon ein rhaglenni gwariant yn fwy cadarn ym mhroses y gyllideb. Mae'r asesiad o effaith carbon rhaglenni gwariant yn fater trawsbynciol y mae pob Gweinidog yn gyfrifol amdano a dylai fod yn sail i'r penderfyniadau cyllido y mae Gweinidogion yn eu cymryd wrth bennu cynlluniau gwario MEG manwl. Fodd bynnag, nid yw asesu effaith garbon benodol buddsoddiadau unigol bob amser yn broses syml. Er enghraifft, mae effaith lleihau carbon buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn seilwaith gwefru trydan yn debygol o fod yn ddibynnol iawn ar y penderfyniadau rheoleiddiol y mae Llywodraeth y DU yn eu gwneud ynghylch cerbydau tanwydd ffosil. Pan fydd hynny'n briodol ac yn ystyrlon, byddwn yn ystyried effaith gynyddol gwariant Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r effaith ehangach y mae gweithredu polisi yn ei chael ar allyriadau carbon. Wrth wneud hynny, byddwn yn parhau i ddibynnu ar dystiolaeth ein hymgyngorwyr newid hinsawdd statudol, sef Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd (UKCCC), ar gyfer pa rai o fuddsoddiadau Llywodraeth Cymru fydd yn cael yr effaith fwyaf. Yn ogystal, bydd datblygu'r Cynllun Cyflenwi Carbon Isel nesaf yn nodi manylion y modd y bydd polisiau allweddol yn caniatáu i ni gwrdd â'n cyllideb garbon, gan roi eglurder a sicrwydd i fusnesau ac i unigolion.

Argymhelliad 2.

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn 3 mis ynghylch datblygiad y Cynllun Twf Amgylcheddol. Dylai hyn gynnwys amserlen ar gyfer gweithredu'r Cynllun; gwybodaeth am unrhyw gynlluniau i ymgynghori ar y cynigion; a gwybodaeth am yr amcanion a'r canlyniadau y bwriedir i'r Cynllun eu cyflawni.

Ymateb: Derbyn

Bydd adroddiad ar gael ym Mai 2020 ar ddatblygiad y Cynllun Twf Amgylcheddol. Gellir darparu adroddiad ac amserlen ar gyfer creu'r cynllun i'r Pwyllgor ar hyn o bryd. Megis dechrau y mae'r gwaith, ac felly mae'n bur annhebygol y bydd cynllun gweithredu neu amserlen cyflawni ar gael yn y tri mis nesaf yn unol â'r cais. Darperir gwybodaeth am ein cynlluniau i ymgynghori ar y cynigion. Mae'n annhebygol y bydd amcanion neu ganlyniadau Cynllun Twf Amgylcheddol ar gael bryd hynny, ond gellir adrodd ar gynnydd.

Argymhelliad 3.

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi asesiad o'r goblygiadau ariannol gan gynnwys costau a buddion fersiwn nesaf ei chynllun datgarboneiddio. Dylid cynnwys hyn ochr yn ochr ag asesiad o effaith carbon pob polisi neu ymyriad.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Eisoes disgwylir i adrannau ystyried cost ac effaith pob ymyriad fel rhan o'r broses o ddatblygu polisiâu. Fodd bynnag, nod y Cynllun Carbon Isel yw pennu sut y byddwn yn bodloni ein cyllideb garbon, gan hefyd ddarparu gwybodaeth i randdeiliaid ehangach am y modd rydym ni'n gweithredu. Mae'r cynllun yn cydgrynhai camau gweithredu ar draws y llywodraeth ac ni ddylai fod yn fecanwaith i grynhai asesiadau effaith pob cam gweithredu unigol.

Nid yw Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi asesiad o gost ac effaith pob ymyriad. Mae hyn yr un fath â'r sefyllfa yn yr Alban a'r DU. Fodd bynnag, byddwn yn cynnal arfarniad ehangach o'r modd y mae'r cynllun yn cefnogi'r nodau llesiant.

Argymhelliad 4.

Dylai'r Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn ynghylch a yw'n credu bod y cyllid a ddyrannwyd i'r cynlluniau cartrefi cynnes, Nest ac Arbed, yn ddigonol ar gyfer mynd i'r afael â'r problemau tloidi tanwydd yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn

Mae tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig fel rhan o'r ymchwiliad i dlodi tanwydd, yn awgrymu bod angen gwella effeithlonrwydd ynni 15,000 o gartrefi'r flwyddyn i waredu tloidi tanwydd yn y pymtheng mlynedd nesaf. Os derbynnir yr amcangyfrifon hyn, yna bydd angen dyblu nifer y cartrefi sy'n elwa ar fuddsoddiad trwy'r Rhaglen Cartrefi Clyd, sef 6000 cartref y flwyddyn ar gyfartaledd ar hyn o bryd. Ystyrir hyn fel rhan o'n cynllun drafft newydd i drechu tloidi tanwydd y bwriadwn ei gyhoeddi yn yr wythnosau nesaf.

Argymhelliad 5.

Dylai'r Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn ynghylch yr amgylchiadau sydd wedi arwain at newid rheolwr y cynllun Arbed. Dylai'r Gweinidog egluro pam mae'n credu y bydd y newid hwn yn ddigonol i drawsnewid sut mae'r cynllun Arbed yn cael ei weithredu.

Ymateb: Gwrthod

Mater i'r cwmni a'i sefydliadau rhiant yw trefniadau rheoli Arbed am Byth, gan gynnwys y penderfyniad i newid pennaeth y contract Arbed.

Argymhelliad 6.

Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynghylch ei hamserlen ar gyfer rhoi'r argymhellion yn yr adroddiad "Cartrefi Gwell, Cymru Well, Byd Gwell" ar waith. Dylai hyn gynnwys cyfeiriad at unrhyw gyllid a ddyrannwyd yn y gyllideb ddrafft at y diben hwn.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn cyflawni ein hymrwymiad i ddatblygu rhaglen i gefnogi'r camau i ddatgarboneiddio cartrefi yn ystod tymor nesaf y Llywodraeth. Mae'r Adroddiad yn nodi'r camau allweddol angenrheidiol ac mae Chris Jofeh (Cadeirydd Grŵp Cyngori Llywodraeth Cymru ar Ddatgarboneiddio Tai Cyfredol) yn arwain y gwaith gyda Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau bod yr elfennau yn eu lle.

Un o'r prif flaenoriaethau - fel yr argymhellir yn yr Adroddiad - yw'r gwaith modelu o'r stoc tai cymdeithasol sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd. Nod y gwaith yw asesu a yw'r targed EPC A 10 mlynedd a argymhellir gan y Grŵp yn gyraeddadwy. Hefyd bydd yn helpu i nodi, er enghraifft, y llwybrau datgarboneiddio cywir ar gyfer cartrefi, y camau angenrheidiol a'r costau cysylltiedig.

Mae landlordiaid cymdeithasol yn rhan o'r gwaith hwn gyda thri yn benodol yn cydweithio â ni i gyflawni'r gwaith modelu manwl. Bydd cam hwn y gwaith yn cael ei gwblhau yn ystod gwanwyn 2020. Yna bydd landlordiaid cymdeithasol yn gallu defnyddio'r dull hwn i fodelu eu stoc eu hunain, y llwybrau sydd angen iddynt eu defnyddio a'r costau cysylltiedig a'r lleihad mewn lefelau carbon.

Argymhelliad 7.

Dylai'r Gweinidog hysbysu'r Pwyllgor hwn ynghylch unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU am y trefniadau ar ôl Brexit. Dylai hyn gynnwys unrhyw drafodaethau ynghylch unrhyw gyllid i liniaru effaith Brexit heb gytundeb.

Ymateb: Derbyn

Mae mwyafrif y trafodaethau a gaiff Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig gyda Llywodraeth y DU ynghylch cyllid a threfniadau pontio'r UE ar ôl Brexit yn digwydd yn y Grŵp Rhyng-Weinidogol ar gyfer yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig gyda Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill. Ar ôl pob cyfarfod mae'r Gweinidog yn darparu datganiad ysgrifenedig gyda diweddariad ar y trafodaethau a gynhaliwyd.

Argymhelliad 8.

Dylai'r Gweinidog, cyn gynted ag y bo modd, gadarnhau a yw'r €6.12 miliwn a ymrwymwyd o ganlyniad i adroddiad Bew wedi'i ddyrannu i'w phortffolio.

Ymateb: Derbyn

Mae'r cyllid hwn yn ymwneud â Thaliadau Uniongyrchol i ffermwyr (colofn 1 o PAC) a gaiff ei reoleiddio o dan gyfraith yr UE ac felly mae'n rhaid gwneud newidiadau deddfwriaethol er mwyn darparu'r pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i roi'r cyllid ychwanegol i

ffermwyr. Mae Adran 5 o Fil Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) yn rhoi pŵer i Ysgrifennydd Gwladol y DU gynyddu uchafswm y Taliad Uniongyrchol ar gyfer 2020. Gellir defnyddio'r pŵer i gynyddu'r cyllid a chyfran uchafswm y DU a ddyrennir i Gymru ar gyfer blwyddyn hawlio 2020, er mwyn rhoi argymhellion yr Arglwydd Bew ar waith. Rydym wrthi'n gweithio i gael eglurhad gan lywodraeth y DU ynghylch sut a phryd y bydd Cymru'n derbyn yr arian, a byddwn yn falch o gadarnhau pan fydd hyn yn digwydd.

Argymhelliad 9.

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl ar yr amserlen ddiweddaraf ar gyfer y cynllun cymorth ffermio arfaethedig ar ôl Brexit, gan gynnwys cyflwyno Bil amaeth i Gymru.

Ymateb: Derbyn

Yn *Ffermio Cynaliadwy a'n Tir*, fe wnaethom ni amlinellu ein cynigion ar gyfer trefn newydd o gynhaliaeth ariannol sy'n seiliedig ar egwyddor rheoli tir yn gynaliadwy gan ymgorffori agweddau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ar amaethyddiaeth. Comisiynwyd cwmni ymchwil annibynnol i gynhyrchu crynodeb cynhwysfawr o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Cyhoeddir hwn yng ngwanwyn 2020.

Hefyd, bwriadwn gyhoeddi Papur Gwyn yn ystod tymor y Cynulliad hwn. Bydd yn nodi cwmpas posibl Bil Amaethyddiaeth (Cymru) a fydd yn rhoi sail gyfreithiol angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r cynllun newydd arfaethedig. Hefyd bydd yn gweithredu fel cyfrwng ar gyfer newid deddfwriaethol mewn nifer o feysydd cysylltiedig. Bwriadwn i'r Bil hwn gael ei gyflwyno yn gynnar yn ystod tymor nesaf y Cynulliad.

Tan y bydd Bil Amaethyddiaeth (Cymru) mewn grym, rydym yn cymryd pwerau tymor penodol trwy Fil Amaethyddiaeth y DU i roi parhad a sefydlogrwydd i ffermwyr Cymru yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Ar ôl ystyried y sylwadau a godwyd ym Mhwyllgorau'r Senedd wrth iddynt graffu ar y Bil Amaethyddiaeth gwreiddiol (a gyflwynwyd ym Medi 2018), dim ond y pwerau sy'n angenrheidiol ar gyfer parhau i ddarparu'r cymorth ariannol presennol a sicrhau gweithrediad effeithiol marchnadoedd amaethyddol ar draws y DU yn dilyn ein hymadawiad â'r UE y bwriedir eu cymryd ar gyfer Gweinidogion Cymru.

Argymhelliad 10.

Dylai'r Gweinidog egluro faint o'r Rhaglen Datblygu Gwledig a ymrwymwyd. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch faint o'r Rhaglen nad yw wedi'i ymrwymo sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau peilot ar gyfer cynllun cymorth ffermio ar ôl Brexit Llywodraeth Cymru.

Ymateb: Derbyn

Ym mis Rhagfyr 2019, mae £669.3m o'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi'i ymrwymo, sy'n cyfateb i 80.2% o'r rhaglen wedi ei ymrwymo. Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi cymryd camau i sicrhau bod y rhaglen wedi'i hymrwymo'n llawn erbyn 31 Rhagfyr 2020, pan fydd ein gallu i dynnu arian o Ewrop yn dod i ben. Er mwyn sicrhau ymrwymiad llawn, mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig wedi ei gorymrwymo, oherwydd bod rhai cynlluniau yn anochel yn tynnu'n ôl yn ystod rhaglen saith mlynedd. Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw gyllid Rhaglen Datblygu Gwledig heb ei ymrwymo erbyn diwedd y flwyddyn hon. Rydym yn

ystyried pa brosiectau i'w cyllido yn 20121 a thu hwnt, trwy gyllid domestig, a byddwn yn sicr yn ystyried cynlluniau arloesol a newydd, yn ogystal â chynlluniau sy'n bodoli eisoes sy'n cael eu hariannu trwy'r Rhaglen Datblygu Gwledig ar hyn o bryd ac sy'n bodloni ein blaenoriaethau.

Argymhelliad 11.

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn pan fydd wedi gwneud penderfyniad ynghylch sut y bydd yn defnyddio'r £40 miliwn, fwy neu lai, sy'n codi o fodiwleiddio. Dylai'r Gweinidog nodi sut mae'n bwriadu defnyddio'r cyllid hwn i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol.

Ymateb: Derbyn

Er mwyn cefnogi'r economi a'r amgylchedd gwledig yn dilyn Brexit, rydym yn trosglwyddo 15% (£41m) o'r uchafswm cyllideb o €320m (£285m) ar gyfer Cynllun Taliadau Sylfaenol 2020 i gefnogi datblygiad gwledig yn 2021/22. Mae'r penderfyniad i drosglwyddo'r cyllid hwn wedi ei wneud yn amodol ar Lywodraeth y DU yn darparu cyllid amgen llawn, gyda Chymru'n derbyn dim un geiniog yn llai nag yr ydym wedi ei dderbyn mewn cyllid Ewropeaidd. Fodd bynnag, ni chafwyd cadarnhad o hyn hyd yma. Bydd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig yn adrodd i'r Pwyllgor ynghylch sut y defnyddir y cyllid hwn pan ddaw'n amlwg faint o gyllid yn union a ddarperir gan Lywodraeth y DU, a bydd hynny o reidrwydd yn effeithio ar ddyrannu adnoddau.

Argymhelliad 12.

Dylai'r Gweinidog, ar y cyfle cyntaf, rannu gyda'r Pwyllgor adroddiad y grŵp rhanddeiliaid ar y trefniadau llywodraethu amgylcheddol ar gyfer y dyfodol.

Ymateb: Derbyn

Paratowyd drafft cyntaf o'r adroddiad ar gyfer cyfarfod mis Ionawr y grŵp gorchwyl rhanddeiliaid. Mae'r Grŵp wrthi'n cwblhau'r adroddiad, a fydd yn cael ei gyflwyno i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ddiwedd y mis. Bydd y Pwyllgor yn derbyn copi o'r adroddiad maes o law.

Argymhelliad 13.

Dylai'r Gweinidog egluro a oes unrhyw gyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer bwrw ymlaen ag argymhellion y grŵp rhanddeiliaid ar y trefniadau llywodraethu amgylcheddol ar gyfer y dyfodol.

Ymateb: Gwrthod

Disgwyliwn i adolygiad cynhwysfawr o wariant nesaf y DU ddigwydd yn 2020 gan bennu cyllidebau am y blynyddoedd i ddod. Rydym yn parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i nodi ei chynigion i ariannu cyfrifoldebau newydd, fel y corff llywodraethu amgylcheddol arfaethedig. Mae'n rhaid i hyn gynnwys darparu cyllid addas i Gymru ble, fel sy'n glir yn yr achos hwn, mae'r cyfrifoldebau hyn yn cwmpasu swyddogaethau a meysydd polisi datganoledig.

Argymhelliad 14.

Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor hwn am y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch y Rhaglen LIFE

Ymateb: Derbyn

Ar hyn o bryd, mae cyllid LIFE yn chwarae rôl bwysig wrth ddatblygu dulliau newydd o weithredu polisi amgylcheddol yng Nghymru, trwy roi cyfle i sefydliadau arddangos a threialu ffyrdd newydd a blaengar o weithredu polisiau ar:

- Natur a bioamrywiaeth
- Economi gylchol
- Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd
- Trawsnewid i Ynni Glân

Yn ystod cyfnod pontio gadael yr UE, bydd swyddogion yn parhau i drafod gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru'n dal i elwa ar raglen LIFE. Mae opsiynau ar gael i barhau'n 'aelod cyswllt' o'r rhaglen ar sail y DU, a hwn fyddai'r dewis cyntaf. Nid yw'n glir eto faint fyddai cost aelodaeth o'r fath. Mewn sefyllfa o adael heb gytundeb, byddem yn ceisio dal gafael ar gyllid ar gyfer rhaglen gyfwerth yn y DU.

Argymhelliad 15.

Rydym yn nodi y dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn unwaith y bydd penderfyniadau wedi'u gwneud ynghylch dyrannu'r £15 miliwn ar gyfer y rhwydwaith Natura 2000

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn adrodd ar y cynnydd ynghylch dyrannu cyllid Natura 2000 ym mis Mehefin 2020. Mae £15m ar gael fel cyllid cyfalaf ar gyfer 2020-21 i gefnogi'r gwaith o adfer safleoedd Natura 2000. Mae gwybodaeth sylfaenol (2015) gennym ynghylch eu statws presennol, a bydd gwaith yn canolbwyntio ar weithredoedd i wella safleoedd tuag at y nod hwn. Mae'r data hwn yn darparu rhestr o weithredoedd wedi eu costio y mae modd eu cyflawni i wella pob safle Natura 2000 yng Nghymru, ar y môr ac ar y tir. Gweinyddir y cyllid gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru.

Argymhelliad 16.

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl ar gynlluniau ei hadran ar gyfer cadwraeth morol yn y flwyddyn i ddod. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth ynghylch faint o gyllid fydd yn cael ei ddyrannu yng nghyllideb yr is-adran i gefnogi'r gwaith hwn ac ar gyfer dynodi parthau cadwraeth forol yn 2020-2021.

Ymateb: Derbyn

Bydd dyraniadau ariannol i gefnogi'r gwaith o nodi a dynodi Parthau Cadwraeth Morol a bennwyd yn 2019/20 yn cael eu cynnal yn 2020/21; fodd bynnag, bydd hyn yn cael ei reoli'n ofalus yn ystod y flwyddyn.

Argymhelliad 17. Dylai'r Gweinidog ddarparu rhagor o wybodaeth am broffil staffio presennol adran y môr a physgodfeydd ac unrhyw gynlluniau sydd ar y gweill i gynyddu nifer y staff.

Ymateb: Derbyn

Mater i'r Ysgrifennydd Parhaol yw staffio'r gwasanaeth sifil. Mae Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol i ysgrifennu at y Pwyllgor ynghylch y mater hwn.

Argymhelliad 18.

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl ynghylch yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r strategaeth rheoli risg newydd. Dylai'r Gweinidog hefyd egluro a oes cyllid wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddrafft ar gyfer gweithredu'r strategaeth, neu unrhyw gamau sy'n codi ohoni.

Ymateb: Derbyn

Cyhoeddwyd y crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Drafft Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru newydd ar 7 Chwefror.

Yn ystod yr ymgynghoriad, a gynhaliwyd rhwng 24 Mehefin a 16 Medi 2019, aethpwyd ati i geisio barn ar ein dull gweithredu arfaethedig i reoli'r risg o lifogydd ac erydu arfordirol ar draws Cymru. Derbyniwyd 61 ymateb ysgrifenedig a chasglwyd safbwyntiau a sylwadau ychwanegol mewn tri gweithdy.

Disgwylir i'r Strategaeth Genedlaethol derfynol gael ei chymeradwyo a'i chyhoeddi ym mis Mehefin 2020. Ymrwymwyd y gyllideb Risg Llifogydd ac Arfordirol yn ei chyfanrwydd i gyflwyno'r Strategaeth newydd ac i gefnogi cynlluniau llifogydd a chynlluniau arfordirol i leihau risg.

Darperir dyraniadau refeniw a chyfalaf trwy weithdrefnau cyllideb safonol. Bydd y polisi presennol o ddarparu cyllid cyfalaf i Awdurdodau Rheoli Risg, wedi'u blaenoriaethu ar sail risg, yn parhau. Darperir refeniw i gefnogi gweithgareddau Cyfoeth Naturiol Cymru a swyddogaethau eraill yn cynnwys cynnal a chadw, mapio, hybu ymwybyddiaeth a Chanolfan Monitro Arfordirol Cymru.

Mae'r Strategaeth newydd yn atgyfnerthu ein polisi o ddarparu gwybodaeth a sicrhau gwell canlyniadau o'n buddsoddiad yn y maes perygl llifogydd ac arfordiroedd.

Argymhelliad 19.

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynghylch y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ran defnyddio ffynonellau buddsoddi amgen ar gyfer ymyriadau i reoli'r risg o lifogydd ac erydiad arfordirol.

Ymateb: Derbyn

Mae'r rhaglenni Perygl Llifogydd ac Arfordiroedd yn parhau i ddarparu cyllid cyfalaf a chyllid arloesol i gynlluniau lliniaru llifogydd. Mae eu ffocws yn parhau ar leihau'r risg i fywyd, cartrefi a busnesau.

Rydym yn hyrwyddo buddion ehangach ym mhob un o'n cynlluniau, ond os yw trydydd partïon, fel seilwaith rheilffordd neu gyfleustodau, yn debygol o elwa ar ostyngiad mewn risg, disgwyliwn iddynt gyfrannu at y costau fel sy'n addas. Mae'r Strategaeth Genedlaethol newydd yn nodi hynny'n gliriach.

Ers i ni gyhoeddi'r Gyllideb ddrafft, mae nifer o gymunedau yng Nghymru wedi dioddef difrod storm dinistriol a digynsail. Ar 18 Chwefror, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun rhyddhad llifogydd brys, gyda hyd at £10m ar gael ar unwaith ar gyfer yr ymateb cychwynnol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gael darlun clir o raddfa'r difrod ac i nodi'r gefnogaeth tymor hirach sydd ei hangen. O ystyried yr agosrwydd at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon (2019-20), mae'n debygol y bydd rhai costau'n codi yn y flwyddyn gyfredol a rhai yn 2020-21. O ganlyniad, byddem yn disgwyl i unrhyw gymorth ariannol pellach gael ei adlewyrchu yn y gyllideb atodol gyntaf.

Argymhelliad 20.

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynghylch sut y mae'n bwriadu ymgysylltu â'r sector masnachol er mwyn iddo chwarae rhan yn y broses o gyrraedd y targedau plannu coed.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru'n ymgysylltu â'r sector coedwigaeth yn rheolaidd ynghylch y ffordd orau o fodloni ein targedau ar gyfer y sector. Byddwn yn darparu diweddariad yn ystod y misoedd nesaf ynghylch ein cynlluniau i gynyddu cyfraddau plannu coed yng Nghymru.

Argymhelliad 21.

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynghylch datblygiad y polisi coedwigaeth cenedlaethol, gan gynnwys unrhyw asesiad a wnaed o gostau a buddiannau'r polisi.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn adrodd am gynnydd gyda'r Goedwig Genedlaethol ym mis Mai 2020. Rydym yn bwriadu buddsoddi'r cyllid cyfalaf o £4.5m a chyllid refeniw o £0.5m mewn nifer o brosiectau arddangos yn 2020-2021 a fydd yn gwella cyflwr a chysylltedd ein coetiroedd hynafol ac yn helpu i hybu'r gyfradd plannu coed yng Nghymru, gan ddatgloi buddion amgylcheddol ac economaidd. Bydd y prosiectau arddangos yn ein galluogi i ddechrau gweithgaredd ar lawr gwlad, treialu mecanweithiau cyllido a a chyflawni ar gyfer gwella a chreu coetiroedd i lywio ein cynlluniau ar gyfer y Goedwig Genedlaethol yn y dyfodol. Bydd y Goedwig Genedlaethol yn cyfrannu at y targed o greu 2,000 hectar o goetir eleni, ochr yn ochr â mesurau eraill fel cynllun Creu Coetir Glastir.

Argymhelliad 22.

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ynghylch unrhyw drafodaethau a gafodd gyda'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Thai ac awdurdodau lleol ynghylch sut y bydd y costau sy'n codi o'r ymyriadau lles anifeiliaid arfaethedig yn cael eu cyllido.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae swyddogion wedi cyfarfod â chynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol i drafod rhwystrau i orfodi a materion sy'n ymwneud â thrwyddedu sefydliadau bridio. Ynghyd â'r trafodaethau hynny, mae prosiect cwmpasu ar y gweill gan yr Awdurdodau Lleol i benderfynu pa adnoddau ychwanegol sy'n angenrheidiol i wneud y defnydd gorau o strwythurau presennol a sicrhau dull cyson o drwyddedu sefydliadau bridio ledled Cymru. Ni fydd Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig mewn sefyllfa i drafod pa gyllid ychwanegol y gallai fod ei angen ar gyfer hyn hyd nes y bydd yr astudiaeth gwmpasu wedi ei chwblhau. Bryd hynny, bydd yn cynnal trafodaethau gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ac Awdurdodau Lleol.

Argymhelliad 23.

Dylai'r Gweinidog eglur sut y diffinnir "teithio cynaliadwy" mewn perthynas â'r dyraniadau cyllid yn y gyllideb ddrafft.

Ymateb:

Mae'r dyraniad Teithio Cynaliadwy yn y gyllideb ddrafft yn cynnwys cyllid i hyrwyddo a chefnogi teithio ar fysiau yn bennaf (gan gynnwys Prisiau Consesiynol, Cynllun Teithio â Gostyngiad i Bobl Ifanc, gwasanaethau TrawsCymru a Grant Cynnal Gwasanaethau Bysiau). Mae hefyd yn cefnogi teithio llesol, gan ganolbwyntio'n benodol ar gerdded a beicio.

Argymhelliad 24.

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Cynulliad ynghylch effaith yr ymyriadau lleihau cyflymder cyn gynted â phosibl ar ôl i'r data gael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2020. Dylai hyn gynnwys amcangyfrif ar sail gwybodaeth o ba bryd y mae'n disgwyl y bydd pob safle'n llwyddo i gydymffurfio â'r targedau ansawdd aer.

Ymateb: Derbyn

Mae'r adroddiad data i'w gyhoeddi ym mis Mawrth 2020 yn cynnwys naratif ar effaith y mesur terfyn cyflymder 50 milltir yr awr ym mhob un o'r pum lleoliad ar y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd. Bydd yr adroddiad hefyd yn darparu diweddariad ynghylch pryd mae disgwyl i bob un o'r lleoliadau sicrhau cydymffurfiaeth â'r terfyn cyfreithiol.

Argymhelliad 25.

Dylai'r Gweinidog adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn o fewn y 6 mis nesaf ynghylch datblygiad y Mesurau Cadw Rhagofalus. Yn benodol, hoffai'r Pwyllgor gael manylion pellach ynghylch y cynlluniau ymgynghori; yr amserlen ar gyfer y rhaglen o waith; a'r cyllid a ddyrennir i'r polisi.

Ymateb: Derbyn

Bydd yr adroddiad y mae swyddogion yn bwriadu ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2020 hefyd yn cynnwys diweddariad ar ddatblygiad y Mesurau Cadw Rhagofalus. Bydd swyddogion yn sicrhau bod y diweddariad yn cynnwys y mathau a'r lefelau o ymgynghori sydd mewn golwg a'r amserlenni ar gyfer dylunio a gweithredu pob Mesur Cadw Rhagofalus ymhellach. Bydd swyddogion yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor cyn gynted ag y bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi a byddant hefyd yn amlinellu lefel a ffynhonnell y cyllid ar gyfer y Mesurau Cadw Rhagofalus.

Argymhelliad 26. Dylai'r Gweinidog egluro a oes cyllid yn y gyllideb ddrafft i gefnogi gweithrediad y Cynllun Aer Glân a datblygiad y Ddeddf Aer Glân.

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi dyfarnu cyllid o ychydig dros £25 miliwn hyd at 2021 i gefnogi gweithredu mesurau i gyflymu cydymffurfiaeth â therfynau nitrogen deuocsid a gwella ansawdd aer yng Nghymru. Er mwyn sicrhau gwelliannau angenrheidiol mewn ansawdd aer, mae'n ofynnol i'r gymdeithas gyfan chwarae rhan. Mae hyn yn cynnwys newidiadau mewn ymddygiadau gartref, wrth deithio, yn y gwaith ac wrth hamddena. Mae'r effeithiau a'r buddion yn berthnasol i bob sector. Mewn sawl achos, bydd arian ac adnoddau i gefnogi a chanolbwyntio ar welliannau i ansawdd aer yn gostus ac mae rhai mesurau a gynigiwyd (e.e. terfynau cyflymder, cyfyngiadau traffig) eisoes wedi bod yn amhoblogaidd, er gwaetha'r buddion. Bydd angen buddsoddiad tymor hir parhaol a sylweddol er mwyn gwella ansawdd aer. Nid ydym mewn sefyllfa i bennu faint yn union o gyllid ychwanegol sy'n ofynnol nes bod astudiaethau o gamau gweithredu penodol yn cael eu cynnal a'u canlyniadau'n hysbys.

Mae'r gyllideb benodol ar gyfer ansawdd aer yn 2020-21 yn gymesur â chyllideb refeniw o £3,415,000 a chyllideb gyfalaf o £17,095,000. O'r cyfanswm, ein hymrwymiaidau mwyaf yw'r grantiau o dros £16,000,000 i Gaerffili a Chaerdydd i leihau nitrogen deuocsid yn yr ardaloedd ble mae ei lefelau dros y terfynau cyfreithiol. Defnyddir gweddill y gyllideb i gefnogi datblygu a chyflenwi Cynllun a Deddf Aer Glân i Gymru, yn cynnwys tystiolaeth ac ymgysylltu i gefnogi argymhellion yn y dyfodol, targedau ansawdd aer newydd, monitro ac asesu ansawdd aer a chyfathrebu i gefnogi newid ymddygiad, ac annog gweithredu i leihau llygredd aer.

Argymhelliad 27. Dylai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad yn rheolaidd ynghylch y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad cynnydd Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2019.

Ymateb: Derbyn

Derbyniodd Llywodraeth Cymru adroddiad Diweddariad Cynnydd y Comisiwn yn ffurfiol ar 17 Rhagfyr. Croesawyd yr adroddiad gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru mewn Datganiad Ysgrifenedig ar yr un diwrnod.

Maent wedi rhoi tri chynnig cynnar i ni o fesurau llwybr cyflym sy'n canolbwyntio ar draffyrdd sydd wedi'u cynllunio i gael effaith ar lif traffig ar unwaith.

Bydd y Comisiwn yn cyhoeddi adroddiad pellach yn y gwanwyn eleni, gyda'r adroddiad terfynol i'w ddisgwyl tua diwedd 2020.